# DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2012/13

## 1 RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

1.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu argymhellion allweddol Rheolaeth y Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod) CIPFA, fel y'i disgrifir yn Adran 5 y Cod.

1.2 Yn unol â hynny, fe wnaiff y Cyngor greu a chynnal, fel y conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol y trysorlys:-

- Ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys, yn datgan y polisïau, yr amcanion a'r ymagwedd tuag at reoli risg ei weithgareddau rheoli'r trysorlys
- Arferion addas o reoli'r trysorlys (ARhT), sy'n gosod allan y dull y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn pennu sut y bydd yn rheoli ac yn arolygu'r gweithgareddau hynny.

1.3 Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cynnwys, fel isafswm, strategaeth flynyddol a chynllun am y flwyddyn ymlaen llaw, adolygiad canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben, yn y ffurf a bennir yn ei Harferion Rheoli'r Trysorlys.

1.4 Bydd y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn flynyddol ac yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu'n unol â datganiad polisi'r sefydliad ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar Reolaeth y Trysorlys.

1.5 Y Cyngor sy'n enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu strategaeth reoli'r trysorlys a pholisïau'n effeithiol.

## 2 POLISÏAU AC AMCANION GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS

2.1 Bydd y Cyngor yn diffinio gweithgareddau rheoli'r trysorlys fel:

"Rheolaeth buddsoddiadau a llif arian y Cyngor, ei fancio, trafodion y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a'r ymchwil am berfformiad gorau'n unol â'r risgiau hynny."

2.2 Mae'r Cyngor hwn yn ystyried bod adnabod, monitor a rheoli risg yn llwyddiannus yn brif feini prawf i allu mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu hoblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol yr ymgymerir â nhw i reoli'r risgiau hyn.

2.3 Mae’r Cyngor yma’n cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol y trysorlys yn darparu cymorth tuag at gyflawni ei fusnes a’i amcanion busnes. Mae felly’n ymroddedig i egwyddorion gwerth am arian mewn rheolaeth y trysorlys, ac i ddefnyddio technegau addas i fesur perfformiad, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol.”

2.4 Bydd benthyciadau’r Cyngor yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ddarbodus ac fe roddir ystyriaeth i reoli risg cyfradd llog a risg ail-gyllido. Dylai ffynhonnell benthyciad y cyngor a’r math o fenthyciad ganiatáu eglurder i’r Cyngor a rheolaeth o’i ddyled.

2.5 Prif amcan y Cyngor o hyd o ran buddsoddiadau yw diogelwch cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau’r Awdurdod ac yna’r arenillion ar fuddsoddiadau’n dal i fod yn bwysig ond maen nhw’n ystyriaethau eilaidd.